



Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2013 dccc 7

Active Travel (Wales) Act 2013

2013 anaw 7

Lluniwyd Nodiadau Esboniadol yn gymorth i ddeall y Ddeddf hon ac maent ar gael ar wahân.

Explanatory Notes have been produced to assist in the understanding of this Act and are available separately.

£5.75



Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2013 dccc 7

Active Travel (Wales) Act 2013

2013 anaw 7



Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

2013 dccc 7

CYNNWYS

Cyflwyniad

- 1 Trosolwg
- 2 Ystyr “llwybr teithio llesol” a “cyfleusterau cysylltiedig” etc.

Mapiau

- 3 Mapiau llwybrau presennol
- 4 Mapiau rhwydwaith integredig
- 5 Cyhoeddi etc. mapiau
- 6 Datblygu polisiau trafndiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig

Darpariaethau eraill

- 7 Sicrhau gwelliant parhaus i lwybrau teithio llesol
- 8 Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ar deithio llesol
- 9 Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol
- 10 Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol

Atodol

- 11 Adolygu gweithrediad y Ddeddf
- 12 Cyfarwyddiadau a chanllawiau
- 13 Dehongli
- 14 Cychwyn
- 15 Enw byr



Active Travel (Wales) Act 2013

2013 anaw 7

CONTENTS

Introduction

- 1 Overview
- 2 Meaning of “active travel route” and “related facilities” etc.

Maps

- 3 Existing routes maps
- 4 Integrated network maps
- 5 Publication etc. of maps
- 6 Developing transport policies with regard to integrated network map

Other provisions

- 7 Securing continuous improvement in active travel routes
- 8 Reports by Welsh Ministers on active travel
- 9 Provision for walkers and cyclists in exercise of certain functions
- 10 Duty to exercise functions to promote active travel

Supplementary

- 11 Review of operation of Act
- 12 Directions and guidance
- 13 Interpretation
- 14 Commencement
- 15 Short title



Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer mapio llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig ac ar gyfer mapiau rhwydwaith integredig ac mewn cysylltiad â'r mapiau hynny; ar gyfer sicrhau bod llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell; ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr, a rhoi sylw i'w hanghenion; ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau o dan y Ddeddf gael eu harfer er mwyn hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell; ac at ddibenion cysylltiedig. [4 Tachwedd 2013]

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Cyflwyniad

1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth—

- (a) ar gyfer mapiau a gymeradwyir o lwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig mewn ardal awdurdod lleol,
- (b) ar gyfer mapiau rhwydwaith integredig a gymeradwyir o'r llwybrau teithio llesol newydd a gwell a'r cyfleusterau cysylltiedig y mae eu hangen i greu rhwydweithiau integredig o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig mewn ardal awdurdod lleol,
- (c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i fapiau rhwydwaith integredig wrth lunio polisiau trafndiaeth ac i sicrhau bod llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell,
- (d) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar deithio llesol yng Nghymru,
- (e) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr a rhoi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol eraill, ac



Active Travel (Wales) Act 2013

An Act of the National Assembly for Wales to make provision for the mapping of active travel routes and related facilities and for and in connection with integrated network maps; for securing that there are new and improved active travel routes and related facilities; for requiring the Welsh Ministers and local authorities to take reasonable steps to enhance the provision made for, and to have regard to the needs of, walkers and cyclists; for requiring functions under the Act to be exercised so as to promote active travel journeys and secure new and improved active travel routes and related facilities; and for connected purposes. [4 November 2013]

Having been passed by the National Assembly for Wales and having received the assent of Her Majesty, it is enacted as follows:

Introduction

1 Overview

This Act makes provision—

- (a) for approved maps of existing active travel routes and related facilities in a local authority's area,
- (b) for approved integrated network maps of the new and improved active travel routes and related facilities needed to create integrated networks of active travel routes and related facilities in a local authority's area,
- (c) requiring local authorities to have regard to integrated network maps in preparing transport policies and to secure that there are new and improved active travel routes and related facilities,
- (d) requiring the Welsh Ministers to report on active travel in Wales,
- (e) requiring the Welsh Ministers and local authorities, in the performance of functions under the Highways Act 1980, to take reasonable steps to enhance the provision made for walkers and cyclists and to have regard to the needs of walkers and cyclists in the exercise of certain other functions, and

- (f) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf er mwyn hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell.

2 Ystyr "llwybr teithio llesol" a "chyfleusterau cysylltiedig" etc.

- (1) At ddibenion y Ddeddf hon mae llwybr mewn ardal awdurdod lleol yn llwybr teithio llesol—
- os yw'r llwybr mewn man ddynodedig yn yr ardal, a
 - os yw'r awdurdod lleol o'r farn ei bod yn briodol iddo gael ei ystyried yn llwybr teithio llesol.
- (2) Yn yr adran hon ystyr "llwybr" yw priffordd, neu unrhyw lwybr arall y mae gan y cyhoedd fynediad iddo, (gan gynnwys croesfan priffordd neu unrhyw lwybr o'r fath) ac y caiff cerddwyr a beicwyr, neu gerddwyr a beicwyr o unrhyw ddisgrifiad, ei ddefnyddio'n gyfreithlon.
- (3) Yn y Ddeddf hon ystyr "cerddwyr a beicwyr" yw—
- pobl sy'n cerdded,
 - pobl sy'n defnyddio beiciau pedal, ac eithrio beiciau pedal sy'n gerbydau modur at ddibenion Deddf Traffig Ffyrdd 1988, ac
 - pobl anabl nad ydynt o fewn paragraff (a) na (b) sy'n defnyddio cadeiriau olwyn modur, sgwteri symudedd neu gymhorthion symudedd eraill.
- (4) Yn y Ddeddf hon ystyr "dynodedig", mewn perthynas â man, yw wedi ei phennu, neu o ddisgrifiad sydd wedi ei bennu, mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru, yn benodol, bennu man, neu ddisgrifiad o fan, drwy gyfeirio at—
- dwysedd ei phoblogaeth,
 - ei maint,
 - ei hagosrwydd at fannau dwys eu poblogaeth sy'n fwy na maint penodol,
 - ei safle rhwng y cyfryw fannau,
 - ei hagosrwydd at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol, neu
 - y potensial, am resymau eraill, i fod yn fan, neu'n ddisgrifiad o fan, lle y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud mwy o deithio a hynny trwy deithiau teithio llesol.
- (6) Wrth ystyried a yw'n briodol i lwybr gael ei ystyried yn llwybr teithio llesol, rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth i'r canlynol—
- a yw'r llwybr yn hwyluso gwneud teithiau teithio llesol gan gerddwyr a beicwyr, neu gerddwyr a beicwyr o unrhyw ddisgrifiad, a
 - a yw lleoliad, natur a chyflwr y llwybr yn ei wneud yn addas i'w ddefnyddio yn ddiogel gan gerddwyr a beicwyr, neu gerddwyr a beicwyr o unrhyw ddisgrifiad ar gyfer gwneud y teithiau hynny,
- a rhaid iddo roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

- (f) requiring the Welsh Ministers and local authorities to exercise their functions under the Act so as to promote active travel journeys and secure new and improved active travel routes and related facilities.

2 Meaning of “active travel route” and “related facilities” etc.

- (1) For the purposes of this Act a route in a local authority’s area is an active travel route if—
 - (a) the route is situated in a designated locality in the area, and
 - (b) the local authority considers that it is appropriate for it to be regarded as an active travel route.
- (2) In this section “route” means a highway, or any other route to which the public has access, (including a crossing of a highway or any such route) and which may lawfully be used by, or by any description of, walkers and cyclists.
- (3) In this Act “walkers and cyclists” means—
 - (a) people who walk,
 - (b) people who use pedal cycles, other than pedal cycles which are motor vehicles for the purposes of the Road Traffic Act 1988, and
 - (c) disabled people not within paragraph (a) or (b) who use motorised wheelchairs, mobility scooters or other aids to mobility.
- (4) In this Act “designated”, in relation to a locality, means specified, or of a description specified, in a direction given by the Welsh Ministers.
- (5) The Welsh Ministers may, in particular, specify a locality, or description of locality, by reference to—
 - (a) density of population,
 - (b) size,
 - (c) proximity to densely-populated localities above a particular size,
 - (d) position between such localities,
 - (e) proximity to community services and facilities, or
 - (f) potential for other reasons to be a locality, or description of locality, in which more travel is undertaken by walkers and cyclists by active travel journeys.
- (6) In considering whether it is appropriate for a route to be regarded as an active travel route, a local authority must take into account—
 - (a) whether the route facilitates the making by, or by any description of, walkers and cyclists of active travel journeys, and
 - (b) whether the location, nature and condition of the route make it suitable for safe use by, or by any description of, walkers and cyclists for the making of such journeys,

and must have regard to guidance given by the Welsh Ministers.

- (7) Yn y Ddeddf hon ystyr “taith teithio llesol” yw taith a wneir i weithle neu sefydliad addysgol neu oddi yno neu er mwyn defnyddio gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill.
- (8) At ddibenion y Ddeddf hon ystyr “cyfleusterau cysylltiedig”, mewn perthynas â llwybr teithio llesol, yw –
- (a) cyfleusterau sy’n rhoi lloches, cyfleusterau gorffwys neu gyfleusterau storio,
 - (b) toiledau neu gyfleusterau ymolchi,
 - (c) arwyddion, neu
 - (d) cyfleusterau eraill,
- sydd ar gael i’w defnyddio gan gerddwyr a beicwyr, neu gerddwyr a beicwyr o unrhyw ddisgrifiad, sy’n defnyddio’r llwybr teithio llesol.
- (9) Wrth benderfynu a yw unrhyw beth yn gyfleusterau cysylltiedig at ddibenion y Ddeddf hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

Mapiau

3 Mapiau llwybrau presennol

- (1) Rhaid i bob awdurdod lleol –
- (a) llunio map llwybrau presennol, a
 - (b) ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo.
- (2) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyr “map llwybrau presennol”, mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw map sy’n dangos y llwybrau teithio llesol a’r cyfleusterau cysylltiedig yn ardal yr awdurdod lleol.
- (3) Wrth i awdurdod lleol lunio ei fap llwybrau presennol rhaid iddo ymgynghori â’r canlynol –
- (a) pob person sydd wedi gwneud cais i’r awdurdod lleol ymgynghori ag ef am ei fap llwybrau presennol, a
 - (b) unrhyw bersonau eraill sy’n briodol ym marn yr awdurdod lleol.
- (4) Wrth i awdurdod lleol lunio ei fap llwybrau presennol rhaid iddo roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o ran –
- (a) yr ymgynghoriad a’r camau eraill sydd i’w cymryd wrth ei lunio,
 - (b) y materion sydd i’w dangos arno, ac
 - (c) ei ffurf.
- (5) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno ei fap llwybrau presennol i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo –
- (a) cyn diwedd y cyfnod o flwyddyn sy’n dechrau ar y dyddiad y daw’r adran hon i rym, neu
 - (b) os yw Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd a roddir i’r awdurdod lleol yn pennu dyddiad ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw fel y dyddiad y mae rhaid ei gyflwyno iddynt, heb fod yn hwyrach na’r dyddiad hwnnw.

- (7) In this Act “active travel journey” means a journey made to or from a workplace or educational establishment or in order to access health, leisure or other services or facilities.
- (8) For the purposes of this Act “related facilities”, in relation to an active travel route, means –
- (a) facilities for shelter, resting or storage,
 - (b) toilets or washing facilities,
 - (c) signage, or
 - (d) other facilities,
- which are available for use by, or by any description of, walkers and cyclists using the active travel route.
- (9) In determining whether anything constitutes related facilities for the purposes of this Act a local authority must have regard to guidance given by the Welsh Ministers.

Maps

3 Existing routes maps

- (1) Each local authority must –
- (a) prepare an existing routes map, and
 - (b) submit it to the Welsh Ministers for approval.
- (2) For the purposes of this Act, “existing routes map”, in relation to a local authority, means a map showing the active travel routes and related facilities in the local authority’s area.
- (3) In preparing its existing routes map a local authority must consult –
- (a) all persons who have requested the local authority that they be consulted about its existing routes map, and
 - (b) any such other persons as it considers appropriate.
- (4) In preparing its existing routes map a local authority must have regard to guidance given by the Welsh Ministers as to –
- (a) the consultation and other steps to be taken in preparing it,
 - (b) the matters to be shown on it, and
 - (c) its form.
- (5) A local authority must submit its existing routes map to the Welsh Ministers for approval –
- (a) before the end of the period of 1 year beginning with the day on which this section comes into force, or
 - (b) if the Welsh Ministers by direction given to the local authority specify a date after the end of that period as the date by which it must be submitted to them, no later than that date.

- (6) Wrth gyflwyno map llwybrau presennol i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol gyflwyno iddynt hefyd –
- (a) datganiad ynghylch i ba raddau (os o gwbl) y mae unrhyw un neu ragor o'r llwybrau teithio llesol a ddangosir arno yn peidio â chydymffurfio â'r safonau a bennir yn y canllawiau a roddir o dan adran 2(6), a
 - (b) esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu, er hynny, ei bod yn briodol iddynt gael eu hystyried yn llwybrau teithio llesol.
- (7) Wrth gyflwyno map llwybrau presennol i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon ar unrhyw achlysur ac eithrio'r achlysur cyntaf, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno adroddiad iddynt hefyd yn pennu sut y mae lefel y defnydd o lwybrau teithio llesol a'r cyfleusterau cysylltiedig yn ardal yr awdurdod lleol wedi newid ers yr achlysur blaenorol pan gyflwynodd yr awdurdod lleol fap llwybrau presennol i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.
- (8) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo map llwybrau presennol a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan yr adran hon, cânt drwy gyfarwyddyd a roddir i'r awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol –
- (a) ei ddiwygio (neu ei ddiwygio ymhellach), a
 - (b) ei gyflwyno iddynt i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (9) Wrth i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylent gymeradwyo map llwybrau presennol a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan yr adran hon rhaid iddynt –
- (a) ystyried a yw'r awdurdod lleol wedi cydymffurfio ag is-adrannau (3) a (4) wrth ei lunio, a
 - (b) ystyried cynnwys y datganiad a'r esboniad a gyflwynwyd o dan is-adran (6).
- (10) Unwaith y bydd map llwybrau presennol a lunnir gan awdurdod lleol wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru –
- (a) rhaid i'r awdurdod lleol ei adolygu'n barhaus,
 - (b) caiff yr awdurdod lleol ei ddiwygio, ac
 - (c) rhaid i'r awdurdod lleol ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ar bob achlysur y caiff map rhwydwaith integredig yr awdurdod lleol ei gyflwyno i'w gymeradwyo o dan adran 4.
- (11) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd a roddir i awdurdod lleol bennu achlysur sy'n wahanol i'r hyn a bennir yn is-adran (10)(c) fel yr achlysur y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno map llwybrau presennol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

4 Mapiau rhwydwaith integredig

- (1) Rhaid i bob awdurdod lleol –
- (a) llunio map rhwydwaith integredig, a
 - (b) ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

- (6) When submitting an existing routes map to the Welsh Ministers under this section a local authority must also submit to them –
 - (a) a statement of the extent (if any) to which any of the active travel routes shown on it do not conform to standards specified in guidance given under section 2(6), and
 - (b) an explanation of why the local authority has nevertheless decided that it is appropriate for them to be regarded as active travel routes.
- (7) When submitting an existing routes map to the Welsh Ministers under this section on any occasion other than the first, a local authority must also submit to them a report specifying how the level of use of active travel routes and related facilities in the local authority's area has changed since the previous occasion on which an existing routes map was submitted to the Welsh Ministers under this section by the local authority.
- (8) If the Welsh Ministers decide not to approve an existing routes map submitted to them by a local authority under this section, they may by direction given to the local authority require the local authority –
 - (a) to revise (or further revise) it, and
 - (b) to submit it to them for approval no later than the date specified in the direction.
- (9) In determining whether to approve an existing routes map submitted to them by a local authority under this section the Welsh Ministers must –
 - (a) consider whether the local authority has complied with subsections (3) and (4) in preparing it, and
 - (b) consider the content of the statement and explanation submitted under subsection (6).
- (10) Once an existing routes map prepared by a local authority has been approved by the Welsh Ministers, the local authority –
 - (a) must keep it under review,
 - (b) may revise it, and
 - (c) must submit it to the Welsh Ministers for approval on each occasion on which the local authority's integrated network map is submitted for approval under section 4.
- (11) The Welsh Ministers may by direction given to a local authority specify an occasion different from that specified in subsection (10)(c) as the occasion on which the local authority must submit an existing routes map to the Welsh Ministers for approval.

4 Integrated network maps

- (1) Each local authority must –
 - (a) prepare an integrated network map, and
 - (b) submit it to the Welsh Ministers for approval.

- (2) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyr “map rhwydwaith integredig”, mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw map sy’n dangos –
- (a) y llwybrau teithio llesol newydd a’r cyfleusterau cysylltiedig, a
 - (b) y gwelliannau i’r llwybrau teithio llesol presennol a’r cyfleusterau cysylltiedig,
- y mae eu hangen ym marn yr awdurdod lleol i ddatblygu neu wella rhwydwaith integredig o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig mewn mannau dynodedig yn ei ardal.
- (3) Wrth i awdurdod lleol baratoi ei fap rhwydwaith integredig rhaid iddo ymgynghori â’r canlynol –
- (a) pob person sydd wedi gwneud cais i’r awdurdod lleol ymgynghori ag ef am ei fap llwybrau presennol, a
 - (b) unrhyw bersonau eraill sy’n briodol ym marn yr awdurdod lleol.
- (4) Wrth baratoi ei fap rhwydwaith integredig rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ddymunoldeb –
- (a) hyrwyddo teithiau teithio llesol, a
 - (b) sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a’r cyfleusterau cysylltiedig a gwelliannau i’r llwybrau teithio llesol presennol a’r cyfleusterau cysylltiedig.
- (5) Wrth i awdurdod lleol lunio ei fap rhwydwaith integredig rhaid i’r awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o ran –
- (a) yr ymgynghoriad a’r camau eraill sydd i’w cymryd wrth ei lunio,
 - (b) y cyfnod y mae i ymwneud ag ef,
 - (c) y materion sydd i’w dangos arno, a
 - (d) ei ffurf.
- (6) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno ei fap rhwydwaith integredig i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo –
- (a) cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd sy’n dechrau ar y dyddiad y daw’r adran hon i rym, neu
 - (b) os yw Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd a roddir i’r awdurdod lleol yn pennu dyddiad ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw fel y dyddiad y mae rhaid ei gyflwyno iddynt, heb fod yn hwyrach na’r dyddiad hwnnw.
- (7) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo map rhwydwaith integredig a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan yr adran hon, cânt drwy gyfarwyddyd a roddir i’r awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol –
- (a) ei ddiwygio (neu ei ddiwygio ymhellach), a
 - (b) ei gyflwyno iddynt i’w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na’r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (8) Wrth i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylent gymeradwyo map rhwydwaith integredig a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan yr adran hon rhaid iddynt ystyried a yw’r awdurdod lleol wedi cydymffurfio ag is-adrannau (3) a (5) wrth ei lunio.

- (2) For the purposes of this Act, “integrated network map”, in relation to a local authority, means a map showing—
 - (a) the new active travel routes and related facilities, and
 - (b) the improvements of existing active travel routes and related facilities,that the local authority considers are needed to develop or enhance an integrated network of active travel routes and related facilities in designated localities in its area.
- (3) In preparing its integrated network map a local authority must consult—
 - (a) all persons who have requested the local authority that they be consulted about its integrated network map, and
 - (b) any such other persons as it considers appropriate.
- (4) In preparing its integrated network map a local authority must have regard to the desirability of—
 - (a) promoting active travel journeys, and
 - (b) securing new active travel routes and related facilities and improvements in existing active travel routes and related facilities.
- (5) In preparing its integrated network map a local authority must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers as to—
 - (a) the consultation and other steps to be taken in preparing it,
 - (b) the period to which it is to relate,
 - (c) the matters to be shown on it, and
 - (d) its form.
- (6) A local authority must submit its integrated network map to the Welsh Ministers for approval—
 - (a) before the end of the period of 3 years beginning with the day on which this section comes into force, or
 - (b) if the Welsh Ministers by direction given to the local authority specify a date after the end of that period as the date by which it must be submitted to them, no later than that date.
- (7) If the Welsh Ministers decide not to approve an integrated network map submitted to them by a local authority under this section, they may by direction given to the local authority require the local authority—
 - (a) to revise (or further revise) it, and
 - (b) to submit it to them for approval no later than the date specified in the direction.
- (8) In determining whether to approve an integrated network map submitted to them by a local authority under this section the Welsh Ministers must consider whether the local authority has complied with subsections (3) and (5) in preparing it.

- (9) Unwaith y bydd map rhwydwaith integredig a lunnir gan awdurdod lleol wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru –
- (a) rhaid i'r awdurdod lleol ei adolygu'n barhaus,
 - (b) caiff yr awdurdod lleol ei ddiwygio, ac
 - (c) rhaid i'r awdurdod lleol ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn diwedd pob cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y'i cymeradwywyd ganddynt ddiwethaf.
- (10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd a roddir i awdurdod lleol bennu cyfnod sy'n wahanol i'r cyfnod yn is-adran (9)(c) fel y cyfnod y mae rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno map rhwydwaith integredig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn ei ddiwedd.

5 Cyhoeddi etc. mapiau

- (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i fap llwybrau presennol neu fap rhwydwaith integredig a lunnir gan awdurdod lleol gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i'r awdurdod lleol –
- (a) ei gyhoeddi yn y modd hwnnw sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol,
 - (b) anfon copi yn rhad ac am ddim i'r personau hynny sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol,
 - (c) darparu copi ohono, neu ran ohono, i unrhyw berson ar gais naill ai yn rhad ac am ddim neu am ddim mwy na'r gost o ddarparu'r copi,
 - (d) peri i gopi fod ar gael i edrych arno (ar bob adeg resymol) yn y manau hynny sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol, ac
 - (e) rhoi hysbysiad, yn y modd hwnnw sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol, i ddwyn y manau hynny lle y mae copi ohono ar gael i edrych arno i sylw'r cyhoedd.
- (2) Wrth i awdurdod lleol benderfynu ar yr hyn sy'n briodol at ddibenion is-adran (1) rhaid i'r awdurdod lleol hwnnw roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (3) Pan fo awdurdod lleol, mewn perthynas â map llwybrau presennol a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru, wedi cyflwyno datganiad ac esboniad iddynt o dan adran 3(6) neu adroddiad o dan adran 3(7), rhaid i'r awdurdod lleol –
- (a) ei gyhoeddi yn y modd hwnnw sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol,
 - (b) anfon copi yn rhad ac am ddim i'r personau hynny sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol,
 - (c) darparu copi ohono, neu ran ohono, i unrhyw berson naill ai yn rhad ac am ddim neu am ddim mwy na'r pris o ddarparu'r copi,
 - (d) peri i gopi fod ar gael i edrych arno (ar bob adeg resymol) yn y manau hynny sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol, ac
 - (e) rhoi hysbysiad, yn y modd hwnnw sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol, i ddwyn y manau hynny y mae copi ohono ar gael i edrych arno i sylw'r cyhoedd.

- (9) Once an integrated network map prepared by a local authority has been approved by the Welsh Ministers, the local authority –
 - (a) must keep it under review,
 - (b) may revise it, and
 - (c) must submit it to the Welsh Ministers for approval before the end of each period of 3 years beginning with the day on which it was last approved by them.
- (10) The Welsh Ministers may by direction given to a local authority specify a period different from that in subsection (9)(c) as the period before the end of which the local authority must submit an integrated network map to the Welsh Ministers for approval.

5 **Publication etc. of maps**

- (1) As soon as reasonably practicable after an existing routes map or integrated network map prepared by a local authority has been approved by the Welsh Ministers, the local authority must –
 - (a) publish it in such manner as it considers appropriate,
 - (b) send a free copy to such persons as it considers appropriate,
 - (c) supply a copy of it, or a part of it, to any person on request either free of charge or at no more than the cost of providing the copy,
 - (d) cause a copy to be made available for inspection (at all reasonable hours) at such places as it considers appropriate, and
 - (e) give notice, in such manner as it considers appropriate, for bringing the attention of the public to the places at which a copy of it is available for inspection.
- (2) In determining what it considers appropriate for the purposes of subsection (1) a local authority must have regard to guidance given by the Welsh Ministers.
- (3) Where, in connection with an existing routes map which is approved by the Welsh Ministers, a local authority has submitted to them a statement and explanation under section 3(6) or a report under section 3(7), the local authority must –
 - (a) publish it in such manner as it considers appropriate,
 - (b) send a free copy to such persons as it considers appropriate,
 - (c) supply a copy of it, or of a part of it, to any person either free of charge or at no more than the cost of providing the copy,
 - (d) cause a copy to be made available for inspection (at all reasonable hours) at such places as it considers appropriate, and
 - (e) give notice, in such manner as it considers appropriate, for bringing the attention of the public to the places at which a copy of it is available for inspection.

6 Datblygu polisiau trafndiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig

Rhaid i bob awdurdod lleol, wrth ddatblygu polisiau o dan adran 108(1)(a) neu (2A) o Ddeddf Trafndiaeth 2000 (polisiau sy'n sail i gynlluniau trafndiaeth lleol), roi sylw i'r map rhwydwaith integredig ar gyfer ei ardal.

Darpariaethau eraill

7 Sicrhau gwelliant parhaus i lwybrau teithio llesol

- (1) Rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau bob blwyddyn fod –
 - (a) llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd, a
 - (b) gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig presennol, yn ei ardal.
- (2) Rhaid i awdurdod lleol, wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1), roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (3) Rhaid i bob awdurdod lleol roi adroddiad i Weinidogion Cymru yn pennu'r costau a dynnwyd ganddo ym mhob blwyddyn ariannol wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1).

8 Adroddiadau gan Weinidogion Cymru ar deithio llesol

Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ynghylch i ba raddau y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud teithiau teithio llesol yng Nghymru.

9 Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru a phob awdurdod lleol, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan Rannau 3, 4, 5, 9 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (creu, cynnal a chadw a gwella priffyrdd, ymyrryd â phriffyrdd a chaffael etc. tir), i'r graddau y bo'n ymarferol gwneud hynny, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru a phob awdurdod lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan –
 - (a) Rhannau 1, 2, 4 a 7 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (rheoleiddio traffig cyffredinol ac arbennig, manau parcio a rhwystrau),
 - (b) Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (gwaith stryd), ac
 - (c) Rhan 2 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (rheoli'r rhwydwaith gan awdurdodau traffig lleol).

10 Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn modd sydd wedi ei ddylunio i –
 - (a) hyrwyddo teithiau teithio llesol, a
 - (b) sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig.

6 Developing transport policies with regard to integrated network map

Each local authority must, in developing policies under section 108(1)(a) or (2A) of the Transport Act 2000 (policies forming basis of local transport plans), have regard to the integrated network map for its area.

*Other provisions***7 Securing continuous improvement in active travel routes**

- (1) Each local authority must in every year secure that there are –
 - (a) new active travel routes and related facilities, and
 - (b) improvements of existing active travel routes and related facilities,in its area.
- (2) A local authority must, in performing the duty imposed by subsection (1), have regard to guidance given by the Welsh Ministers.
- (3) Each local authority must make a report to the Welsh Ministers specifying the costs incurred by it in each financial year in performing the duty imposed by subsection (1).

8 Reports by Welsh Ministers on active travel

The Welsh Ministers must make and publish annual reports on the extent to which walkers and cyclists make active travel journeys in Wales.

9 Provision for walkers and cyclists in exercise of certain functions

- (1) The Welsh Ministers and each local authority must, in the exercise of their functions under Parts 3, 4, 5, 9 and 12 of the Highways Act 1980 (creation, maintenance and improvement of highways, interference with highways and acquisition etc. of land), in so far as it is practicable to do so, take reasonable steps to enhance the provision made for walkers and cyclists.
- (2) The Welsh Ministers and each local authority must have regard to the needs of walkers and cyclists in the exercise of their functions under –
 - (a) Parts 1, 2, 4 and 7 of the Road Traffic Regulation Act 1984 (general and special traffic regulation, parking places and obstructions),
 - (b) Part 3 of the New Roads and Street Works Act 1991 (street works), and
 - (c) Part 2 of the Traffic Management Act 2004 (network management by local traffic authorities).

10 Duty to exercise functions to promote active travel

- (1) The Welsh Ministers and local authorities must exercise their functions under this Act in a manner designed to –
 - (a) promote active travel journeys, and
 - (b) secure new active travel routes and related facilities and improvements in existing active travel routes and related facilities.

- (2) Rhaid i bob awdurdod lleol roi adroddiad i Weinidogion Cymru yn pennu'r hyn y mae wedi ei wneud ym mhob blwyddyn ariannol wrth gyflawni'r ddyletswydd a osodir arno gan is-adran (1).

Atodol

11 Adolygu gweithrediad y Ddeddf

Rhaid i Weinidogion Cymru, dim hwyrach na'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau yn union ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn adran 4(6)(a), gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf hon, gyda'r nod penodol o asesu pa mor llwyddiannus y bu wrth sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwella'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig presennol.

12 Cyfarwyddiadau a chanllawiau

- (1) Caniateir i unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau a roddir o dan y Ddeddf hon gan Weinidogion Cymru gael eu hamrywio neu eu dirymu ganddynt.
- (2) Wrth roi (neu amrywio neu ddirymu) cyfarwyddiadau neu ganllawiau o dan y Ddeddf hon rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb –
- hyrwyddo teithiau teithio llesol, a
 - sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig.

13 Dehongli

Yn y Ddeddf hon –

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" (*"financial year"*) yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i "cerddwyr a beicwyr" (*"walkers and cyclists"*) yr ystyr a roddir gan adran 2(3);

mae "cyfleusterau cysylltiedig" (*"related facilities"*) i'w ddehongli yn unol ag adran 2(8) a (9);

mae i "dynodedig" (*"designated"*) yr ystyr a roddir gan adran 2(4);

mae i "llwybr teithio llesol" (*"active travel route"*) yr ystyr a roddir gan adran 2(1);

mae i "map llwybrau presennol" (*"existing routes map"*) yr ystyr a roddir gan adran 3(2);

mae i "map rhwydwaith integredig" (*"integrated network map"*) yr ystyr a roddir gan adran 4(2);

mae i "taith teithio llesol" (*"active travel journey"*) yr ystyr a roddir gan adran 2(7).

- (2) Each local authority must make a report to the Welsh Ministers specifying what it has done in each financial year in the performance of the duty imposed on it by subsection (1).

Supplementary

11 Review of operation of Act

The Welsh Ministers must, no later than the end of the period of 5 years beginning immediately after the end of the period mentioned in section 4(6)(a), carry out a review of the operation of this Act with a view in particular to assessing its success in securing new active travel routes and related facilities and improvements of existing active travel routes and related facilities.

12 Directions and guidance

- (1) Any directions or guidance given under this Act by the Welsh Ministers may be varied or revoked by them.
- (2) In giving (or varying or revoking) directions or guidance under this Act the Welsh Ministers must have regard to the desirability of –
 - (a) promoting active travel journeys, and
 - (b) securing new active travel routes and related facilities and improvements in existing active travel routes and related facilities.

13 Interpretation

In this Act –

“active travel journey” (*“taith teithio llesol”*) has the meaning given by section 2(7);

“active travel route” (*“llwybr teithio llesol”*) has the meaning given by section 2(1);

“designated” (*“dynodedig”*) has the meaning given by section 2(4);

“existing routes map” (*“map llwybrau presennol”*) has the meaning given by section 3(2);

“financial year” (*“blwyddyn ariannol”*) means the period of 12 months ending with 31st March;

“integrated network map” (*“map rhwydwaith integredig”*) has the meaning given by section 4(2);

“local authority” (*“awdurdod lleol”*) means a county council or county borough council in Wales;

“related facilities” (*“cyfleusterau cysylltiedig”*) is to be construed in accordance with section 2(8) and (9);

“walkers and cyclists” (*“cerddwyr a beicwyr”*) has the meaning given by section 2(3).

14 Cychwyn

- (1) Daw adrannau 3 i 11 i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- (2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym drannoeth y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol.

15 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

©Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

14 Commencement

- (1) Sections 3 to 11 come into force in accordance with provision made by the Welsh Ministers by order made by statutory instrument.
- (2) The other provisions of this Act come into force on the day after the day on which this Act receives Royal Assent.

15 Short title

The short title of this Act is the Active Travel (Wales) Act 2013.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474

Archebion ffacs:0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: bookshop@parliament.uk

Rhyngwrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890

General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: bookshop@parliament.uk

Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10535-3



9 780348 105353